

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2008 No. 584**

**Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008**

**Treuliau cychwynnol cyngor cymuned newydd, etc.**

**20.**—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr “yr awdurdod bilio arfaethedig” (*“the prospective billing authority”*) yw Cyngor Sir Powys;

ystyr “y cyngor cymuned newydd” (*“the new community council”*) yw cyngor cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant;

ystyr “Deddf 1992” (*“the 1992 Act”*) yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1);

ystyr “y flwyddyn ariannol berthnasol” (*“the relevant financial year”*) yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2008;

ystyr “Rheoliadau 1995” (*“the 1995 Regulations”*) yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995(2).

(2) Mae adran 41 o Ddeddf 1992 (dyroddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) yn cael effaith—

(a) o ran y cyngor cymuned newydd, y darpar awdurdod bilio a'r flwyddyn ariannol berthnasol; a

(b) parthed y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2008 ac sy'n dod i ben yn union cyn y diwrnod y dyroddir gan y gymuned newydd braesept am y flwyddyn ariannol berthnasol, drwy roi yn lle is-adran (3) yr is-adran ganlynol—

“(3) In making calculations in accordance with section 32 above (originally or by way of substitute) the billing authority shall take into account for the purposes of its estimate under section 32(2)(a) above an amount equal to that specified in article 20(6) of the Powys (Communities) Order 2008.”.

(3) O ran y cyngor cymuned newydd, y darpar awdurdod bilio a'r flwyddyn ariannol gyfredol —

(a) mae adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo anghenion cyllideb gan awdurdodau bilio) yn cael effaith gan hepgor is-adran (6);

(b) mae adran 41(4) o Ddeddf 1992 yn cael effaith drwy roi yn lle'r geiriau “March in the financial year preceding that for which it is issued” y geiriau “October in the financial year for which it is issued”; a

(c) mae'r cyfeiriad yn adran 54(4) o Ddeddf 1992 (pŵer i ddynodi awdurdodau) at braesept a ragwelir gan awdurdod bilio yn unol â rheoliadau o dan adran 41 o Ddeddf 1992 i'w ddehongli fel cyfeiriad at y swm a bennir ym mharagraff (6) o'r erthygl hon.

(4) O ran y swm a gymerir i ystyriaeth at ddibenion adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992 yn rhinwedd paragraff (2) uchod, bydd Pennod III o Ran I o Ddeddf 1992 (pennu'r dreth gyngor) yn cael effaith fel petai—

---

(1) 1992 p.14.

(2) O.S. 1995/2562.

(a) y swm yn eitem a grybwyllwyd yn adran 35(1) o Ddeddf 1992 (eitemau arbennig) a oedd yn ymwneud â'r gymuned newydd; a

(b) ardal y darpar awdurdod bilio yn cynnwys y gymuned newydd.

(5) Rhaid i'r cyngor cymuned newydd wneud y cyfrifiadau sy'n ofynnol gan adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo anghenion cyllideb gan awdurdodau praeseptio lleol) am y flwyddyn ariannol berthnasol er mwyn sicrhau na fydd y swm a gaiff ei gyfrifo fel ei angen cyllideb am y flwyddyn honno yn fwy na'r swm a bennir ym mharagraff (6) o'r erthygl hon.

(6) Chwe mil dau gant ac un ar bymtheg o bunnoedd yw'r swm a bennir yn y paragraff hwn.

(7) O ran y cyngor cymuned newydd, y darpar awdurdod bilio a'r flwyddyn ariannol berthnasol, mae Rheoliadau 1995 yn cael effaith fel petai—

(a) rheoliad 5 (gwybodaeth am amserlenni talu) wedi'i hepgor; a

(b) yn is-baragraffau (1), (2) a (3) o baragraff 8 o Ran II o'r Atodlen (rheolau i benderfynu'r cyfnodau amser ar gyfer rhandaliadau) ym mhob achos yr ail "or" a'r geiriau sy'n dilyn hyd at ddiwedd pob is-baragraff,

wedi'u hepgor.